Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed o Dachwedd 2019.

1 Presennol – Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry – Bryncir, John Jones, Anwen Humphreys, Clifford Williams – Garndolbenmaen, Richard Williams – Prenteg, Huw Pritchard, Delyth Evans Manon Jones-Evans – Pentrefelin, Megan Ll Williams Amanda N Owen – Golan, Gwenno Huws Iddon Edwards – Penmorfa. Cynghorydd Stephen Churchman, Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

Croesawyd Manon Jones-Evans i'w chyfarfod cyntaf ac arwyddodd Datganiad Derbyn Swydd.

2 Ymddiheuriadau – Dylan Pritchard, Gwilym Evans, Dafydd Thomas.

3 Ddim yn bresennol- neb.

4 Datgan buddiant – Megan Ll Williams eitem 6 Bwrdd Dŵr, Delyth Evans, Gwenno Emlyn Huws eitem 13 Cynllunio.

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – 3/10/19 John Jones yn datgan eu cywirdeb a Richard Williams yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Problemau Parcio Garndolbenmaen – arwydd papur wedi ei osod, ond mae hwn nawr yn ddarnau. Clerc i gysylltu gydag Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd.

Rheilffordd Eryri – derbyniwyd ateb yn egluro fod y golau gwyn yn rhan o'r system signal i'r trenau. Wrth uwchraddio'r system, rhoddwyd golau mwy tanbaid ar y platfform a hwn sy'n achosi problemau i ddefnyddwyr y lôn. Maent am edrych os yw'n bosib newid cyfeiriad y lamp i leihau'r effaith. Clerc i gysylltu eto i gyfleu pryderon y Cyngor Cymuned am ddiogelwch defnyddwyr y lôn.

Materion Priffyrdd

Prenteg – Carreg Cyffordd B4410. Mae'r Archwilwyr Priffyrdd am drefnu gosod bolardau ar y safle i hysbysu defnyddwyr y lôn o'r garreg.

Arwydd 'Dim Mynediad' Prenteg – mater yn nwylo'r Uned Traffig a Phrosiectau, Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd.

Pentrefelin - torri glaswellt mynediad i Bryn Tyddyn. Gwaith wedi ei gwblhau.

Garndolbenmaen – ysgubo'r pentref. Mater yn nwylo'r Uned Waith Bwrdeistrefol.

Baw Ci - Mae'r Warden Gorfodaeth Stryd wedi ymweld â Garndolbenmaen a Phentrefelin. Yng Ngarndolbenmaen, gosodwyd arwyddion ychwanegol. Ym Mhentrefelin, dangoswyd i'r Warden y mannau ble mae'r broblem ar ei waethaf. Roedd y Warden am drafod gosod biniau pwrpasol yno gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Stryd. Clerc i gysylltu i holi oes penderfyniad wedi cael ei wneud.

Safle Bwrdd Dŵr Cwmystradllyn - ni dderbyniwyd ateb gan y Bwrdd Dŵr. Clerc i gysylltu.

7 Mynwentydd

Mynwent Bethel

Gwaith lledu'r llwybrau, clirio o dan y fainc a'r gornel ar y dde - heb dderbyn prisiau gan y contractwyr eraill. Clerc i'w holi os ydynt â diddordeb mewn gwneud y gwaith.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr Ty'n Ffridd i Ffridd Newydd – bwlch yn y wal. Cadeirydd i gysylltu gyda pherchennog y tir.

9 Adroddiad Pentrefi

Garndolbenmaen

Y Fawnog (Corsydd Eifionydd) - Rhododendron a Jac y Neidiwr yn tyfu yno. Clerc i gysylltu gyda Pharc Cenedlaethol Eryri a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Frondeg – twll yn y lôn. Adroddodd y Cynghorydd John Jones fod Archwiliwr yr Adran Priffyrdd wedi ymweld. Darganfuwyd fod peipen wedi malu a bod dwr sy'n mynd i'r lôn wedi achosi'r twll. Nid oedd yr Archwiliwr yn gallu rhoi dyddiad pendant ar gyfer y gwaith atgyweirio. Penderfynwyd, os nad yw'r gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr, y bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd yn y Flwyddyn Newydd.

Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan

Clerc i gysylltu gyda Menter Môn i gael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r gost o osod pwyntiau gwefru.

Pentrefelin - er gwybodaeth - mae'r diffibilrwydd wedi cael ei osod.

Bryncir - Adroddwyd fod dau ddamwain wedi digwydd yn ddiweddar wrth Bryn Refail Isaf. Clerc i gysylltu gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

Lôn Golan a Lôn Ymwlch - rhannau o'r lonydd wedi cau fyny gyda choed. Clerc i hysbysu'r Adran Priffyrdd a gofyn iddynt gysylltu gyda pherchnogion y tir.

10 Ciosgs BT

Derbyniwyd llythyr gan BT yn hysbysu'r Cyngor o'i bwriad i ddileu rhai ffonau talu cyhoeddus yn yr ardal. Rhoddir cyfle i gymunedau lleol fabwysiadu caban ffôn. Trafodwyd y ffonau dan sylw a phenderfynwyd ymateb fel a ganlyn

Penmorfa	- Mabwysiadu
Bro Pedr Fardd Garndolbenmaen	- Dileu.
Bryncir	- Dileu.
Llys Gwilym, Golan	- Mabwysiadu.
Efail Cennin, Tai Newyddion	- Dileu.
Cwmystradllyn	- Mabwysiadu.

11 Rhoddion Ariannol

Penderfynwyd rhoi hysbyseb yn y papurau bro lleol.

12 Gohebiaeth

Llythyrau gan Cyngor Gwynedd – dim.

Gohebiaeth ychwanegol

a Parc Cenedlaethol Eryri – Gorchymyn Gwarchod Coed (Rhif 73) 2019. Tir cyfagos i Pen-y-Bryn, Penmorfa.

b Adroddiad Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

c Unllais Cymru Ymddiriedolaeth Carnegie – Deall Lleoedd yng Nghymru.

ch Unllais Cymru – "Managing Green Spaces for Biodiversity for Town and Community Councils". Cysylltu gyda Unllais i holi pan na chafodd yr adrodd ei gyfieithu i'r Gymraeg.

d Adroddiad Mike Parry Cynrychiolydd Unllais Bwrdd Betsi Cadwaladr.

dd Cylch yr Iaith – Sylwadau ar Enwebiad Tirwedd Llechi Cymru Safle Treftadaeth y Byd.

e Cyngor Cymuned Llanaelhaearn – Swydd Clerc.D

13 Cynllunio

Rhestrau 18/10, 29/10/19.

Ceisiadau Cynllunio

C19/0866/36/LL Cais ôl weithredol i newid defnydd tir amaethyddol yn rhan o gwrtil domestig, creu mynedfa gerbydol newydd ynghyd â codi sied bren. 2 Bryn Hyfryd, Garndolbenmaen, Gwynedd. LL51 9TJ Dyddiad cau 24/10/19. Dim gwrthwynebiad.

C19/0962/36/LL Estyniad i sied amaethyddol. Fferm Gwernddwyryd, Penmorfa, Porthmadog. LL49 9SF Dyddiad cau 6/11/19. Dim gwrthwynebiad.

C19/0930/36/AC Rhyddhau amodau 7, 8 a 9 ar ganiatâd cynllunio C09D/0375/36/LL, darparu offer cynhyrchu concrid ar y safle ar gyfer gwerthiant concrid parod. Chwarel Bryncir, Bryncir, Garndolbenmaen. LL51 9LX Dim gwrthwynebiad os yw'r perchennog yn cydymffurfio gydag unrhyw ganllawiau a osodir gan yr asiantaethau amgylcheddol.

C13/1130/36/LL Cais llawn i godi tŷ deulawr newydd ar gyfer gweithiwr amaethyddol hanfodol ynghyd â gosod tanc septic, codi modurdy ar wahân a thirlunio. Garneddhir, Golan, LL51 9YT Dim gwrthwynebiad.

14 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Cymdeithais Rhieni ac Athrawon Ysgol Garndolbenmaen. Trafod ym mis Chwefror.

Monitro'r gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	= £ 237.99
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 61.63
Gwasg y Bwthyn	= £ 8.28
Ychwanegwyd:	
Gwasg y Bwthyn	= £ 16.44
Dylan Edwards	= £1480.00

Derbyniadau:

Menna Vaughan £ 70.00, Pritchard & Griffiths £140.00.

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,818.40 Cyfredol £14,582.00.

15 Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan

- Cynghorwr Newydd
- Ceisiadau Cynllunio
- Rheilffordd Eryri

Gwefan – Cofnodion Hydref, Manylion Cynghorwr Manon Jones-Evans, Manylion Costau Cynghorwyr.